# Pobl a Gwaith

# Adroddiad Blynyddol

# 2025

Rhif Elusen Gofrestredig/Registered Charity Number: 515211
Rhif Cofrestru'r Cwmni/Company Registration Number: 1809654
Rydyn ni'n gyflogwr cyflog byw/We are a living wage employer

# Pobl a Gwaith
# Adroddiad Blynyddol 2025

## Amcanion a gweithgareddau

Amcanion Pobl a Gwaith yw datblygu addysg drwy gynnal a/neu helpu i gynnal ymchwil ac astudiaeth i’n problemau cymdeithasol ac economaidd er lles y cyhoedd; a hyrwyddo addysg ym mhob mater sy’n ymwneud â sefydliadau cymunedol.

Rydym bob amser wedi gweld pob dysgu fel addysg ac rydym, dros y blynyddoedd, wedi gweithio'n agos gyda chymunedau i'w cynorthwyo i ddefnyddio ymchwil i wneud newidiadau. Mae Pobl a Gwaith yn ceisio gwneud gwahaniaeth drwy ddwy swyddogaeth graidd:

- hyrwyddo gwerth addysg a dysgu (i bob grŵp oedran) fel dull o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a hyrwyddo cyflogaeth, drwy raglen o brosiectau ymchwil weithredu yn y gymuned; ac
- ymgymryd â gwaith ymchwil a gwerthuso a gomisiynwyd ar gyfer y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru gan fynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn meysydd fel addysg (ffurfiol ac anffurfiol), iechyd a chyflogaeth.

Mae gwaith ymchwil weithredu sydd wedi'i hunangynhyrchu Pobl a Gwaith yn cael ei gyllido drwy ymddiriedolaethau a chronfeydd elusennol. Daw incwm a enillir o waith ymchwil a gwerthuso a gomisiynwyd a wneir i gynorthwyo'r sectorau cyhoeddus a gwirfoddol. Mae unrhyw warged a enillir drwy'r contractau ymchwil a gwerthuso yn mynd i waith ymchwil weithredu. Mae'r ddau faes gwaith yn ceisio meithrin dealltwriaeth o ffyrdd effeithiol o fynd i'r afael ag achosion ac effeithiau anfantais, yn enwedig mewn perthynas â chanlyniadau addysg, iechyd a chyflogaeth.

# Cyflawniadau a pherfformiad

## Cenhedlaeth Rhondda

Mae Pobl a Gwaith wedi parhau i gynorthwyo grŵp o drigolion Rhondda wrth iddynt ddatblygu elusen newydd, o'r enw Cenhedlaeth Rhondda, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu llesiant ar draws Cymoedd Rhondda. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cyflogi pum arweinydd craidd a phum hyfforddai lleol i adeiladu'r gwaith, gyda chyllid gan Ben y Cymoedd, Sefydliad Waterloo, Sefydliad Moondance, Make Some Noise gan Global Charities, y Gronfa Ffyniant Gyffredin RhCT, Link a Sefydliad Rank. Yn 2024 gwnaethant gofrestru fel cwmni cyfyngedig nid-er-elw a dechrau'r broses o gofrestru fel elusen. Gwnaethant gyflogi eu gweithwyr cyntaf ac ar hyn o bryd mae ganddynt bedwar aelod o staff. Y bwriad yw i'r grŵp fod yn gwbl annibynnol ar Pobl a Gwaith erbyn hydref 2025.

Mae eu dull yn canolbwyntio ar weithio gyda phobl yn Rhondda i ddatblygu pob agwedd ar lesiant gan gynnwys iechyd a ffitrwydd, dysgu, y celfyddydau a chreadigrwydd, cyflogaeth a chynhwysiant digidol. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r grŵp wedi symud tuag at weithio gyda theuluoedd cyfan ac, yn gynyddol, mae'n cynnal gweithgareddau gyda'r hwyr ac ar benwythnosau er mwyn agor mynediad i bobl na allant gymryd rhan yn ystod y diwrnod gwaith.

Maent wedi parhau i ganolbwyntio ar sut y maent yn gweithio gyda sefydliadau eraill yn lleol ac maent wedi datblygu cysylltiadau gwaith agos gyda 29 o grwpiau a sefydliadau lleol. Ar ôl ystyried, maent wedi penderfynu yn erbyn ceisio sicrhau lleoliad craidd oherwydd drwy fynd â'u gweithgareddau i leoliadau partner maent yn cefnogi hyfywedd eraill ac yn sicrhau bod mynediad lleol. Maent yn teithio i gymunedau yn hytrach na gofyn i aelodau o'r gymuned deithio atynt.

Maent wedi sicrhau cyllid gan Sefydliad Rank ac un o grantiau Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ac maent yn gweithio i sicrhau cyllid pellach.

Dyma'r rhaglenni allweddol sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd yn ystod 2024-25 gan Genhedlaeth Rhondda:

**Cymorth cyflogaeth**

Mae'r prosiect cymorth cyflogaeth wedi parhau i helpu pobl i gael mynediad at gyflogaeth drwy chwilio am swyddi a datblygu eu CV. Mae'r sesiynau cymorth galw heibio wedi'u datblygu i dargedu grwpiau penodol gan gynnwys myfyrwyr coleg a rhieni. Gan weithio'n agos gyda rhaglen Rhondda Digidol, mae pobl wedi'u cynorthwyo i gael mynediad at wasanaethau a chyfleoedd ar-lein.

Nododd Tom Jenkins, sy'n arwain y gwaith cymorth cyflogaeth, angen i weithio gyda phobl ifanc sy'n dal yn yr ysgol er mwyn codi eu dealltwriaeth o gyfleoedd cyflogaeth a'r hyn y gallent ei wneud i gael mynediad at waith gwell cyn iddynt adael yr ysgol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Tom wedi cynnal rhaglenni peilot o'r enw STRIVE mewn ysgolion gyda phobl ifanc, gan wahodd cyflogwyr ac entrepreneuriaid lleol i siarad â nhw. Dangosodd y gwerthusiad ymatebion cadarnhaol gan ddisgyblion ac athrawon - *"Mae STRIVE wedi fy helpu gyda'r hyn y byddaf angen y cymorth mwyaf arno ar ôl yr ysgol drwy wneud i mi sylweddol bod mwy o ffyrdd o ddod yn llwyddiannus mewn bywyd"* (person ifanc a fu'n ymwneud â'r cynllun peilot). Bydd y gwaith hwn yn parhau gyda'r elusen newydd ac yn 2025 y bwriad yw gweithio gyda drwy ysgol gyfun arall yn Rhondda.

**Darllen Rhondda**

Mae Darllen Rhondda wedi parhau i gynnal sesiynau darllen i'r teulu mewn lleoliadau ysgolion, cyn-ysgol a gwaith ieuenctid gan weithio gyda chyfartaledd o 90-100 o blant a'u teuluoedd yn wythnosol. Yn 2024 gweithiodd y prosiect gyda deuddeg o ysgolion, gan gynnwys ysgol anghenion arbennig a pharhau i gynorthwyo tair ysgol arall. Anogir ysgolion i gymryd drosodd y sesiynau pan allant, gyda rhieni yn gwirfoddoli i drefnu gweithgareddau a darllen y llyfrau. Gyda chyllid gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin, cafodd gweithiwr cymorth, Claire Davies, ei chyflogi a allai gyflwyno'r gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg, a alluogodd y prosiect i weithio gyda theuluoedd mewn dwy ysgol Gymraeg yn Rhondda a chynnal sesiynau cyn-ysgol a chymunedol dwyieithog. Cafodd hyn ei werthfawrogi'n arbennig lle nad yw rhieni a

gofalwyr eu hunain yn siarad Cymraeg gan ei fod yn eu cynorthwyo i weld sut y gallent barhau i helpu gydag addysg eu plentyn.

*"Mae cyflwyno'r Gymraeg i'r sesiynau wedi bod yn ffordd wych o groesawu teuluoedd nad ydynt yn siarad Cymraeg neu blant bach a fydd yn mynd i leoliadau Cymraeg. Mae dysgu gair neu ymadrodd newydd yn helpu ynghyd â chymorth y llyfrau y gallwn fynd â nhw adref. Mae Claire wedi bod yn groesawgar ym mhob sesiwn ac mae fy merch bob amser wrth ei bodd yn mynd a chanu ei chaneuon Cymraeg ynghyd â'r holl symudiadau."  (Rhiant sy'n mynychu'r sesiynau cyn-ysgol)*

Rhoddir llyfrau mewn sesiynau i'r teulu ac mae llawer o deuluoedd yn dod â nhw yn ôl i'w cyfnewid. Yn ogystal, mae hen flwch ffôn wedi'u stocio â llyfrau ac mae'r gymuned yn cael ei hannog i'w ddefnyddio ac, gyda grant gan Interlink, mae 10 o flychau llyfrgell bach yn cael eu gwneud gyda'r syniad y bydd y rhain yn cael eu llenwi â'r deunydd darllen am ddim ac y bydd cymunedau yn gallu cymryd o'r blwch a chyfrannu ato yn fwy rheolaidd, gan gyrraedd cynulleidfa ehangach na'r rhai sy'n gallu dod i'r sesiynau. Mae'r prosiect wedi cysylltu â Sied Dynion Cymru sydd wedi bod yn garedig a, hyd yma, maent wedi creu dau o'r blychau llyfrgell bach ac maent yn gweithio ar y 7 sy'n weddill gydag un wedi'i wneud gan dad-cu mewn un o'r ysgolion.



Cysylltodd y prosiect ag adran gelf Ysgol Gyfun Treorci lle mae'r myfyrwyr yn gweithio gyda'r teuluoedd yn yr ysgolion cynradd i greu dyluniad sy'n unigryw i'w hysgol ac maent yn llunio ac yn paentio'r blychau. Bydd hyn hefyd yn helpu'r myfyrwyr 6[ed] dosbarth i ennill eu Bagloriaeth Cymru y mae angen oriau cymunedol ar ei chyfer.

Yn 2024, datblygodd Natasha Owen, arweinydd prosiect, y dull ymhellach, wrth barhau i ganolbwyntio ar ddarllen, gan edrych ar ffyrdd o gynnwys teuluoedd mewn gweithgareddau ehangach. Sefydlwyd sesiynau coginio mewn partneriaeth â Chlwb Pentre Comrades ac mae teuluoedd yn gwneud prydau bwyd gyda'i gilydd, gan ddarllen y ryseitiau a rhoi cynnig ar gynhwysion newydd. Gan weithio gyda Croeso i'n Coedwig, mae sesiynau awyr agored wedi'u datblygu i deuluoedd sydd â phlant o

dan bump oed. Gwnaeth grant gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol alluogi Pobl a Gwaith i gyflogi Carmen Todd-Jones i ganolbwyntio ar agweddau ehangach ar gynnwys teuluoedd a hyrwyddo gweithgareddau awyr agored. Gan weithio gyda PIAS Lles mae'r rhain wedi arwain at gyfres o ddiwrnodau Chwarae Gwyllt. Mae'r sesiynau hyn fel arfer ar benwythnosau ac maent yn cynnwys darllen llyfr ac archwilio natur.

**Rhondda Digidol**

Mae Rhondda Digidol wedi'i ddatblygu er mwyn helpu i fynd i'r afael â materion cynhwysiant digidol yn Rhondda.  Un ffactor allweddol o waith Rhondda Digidol yw gweithio ochr yn ochr ag unigolion a grwpiau i'w cynorthwyo i wneud y defnydd gorau o gyfleoedd digidol presennol ar gyfer cyfeillgarwch, siopa, gwaith, iechyd, addysg a chyfathrebu. Mae'r prosiect yn helpu i fynd i'r afael â chynhwysiant digidol drwy ddarparu dyfeisiau, data a'r wybodaeth angenrheidiol i'w defnyddio'n effeithiol.

Gyda chyllid gan Link, llwyddodd y prosiect i gyflogi dau aelod o staff am flwyddyn i gynnal digwyddiadau, sesiynau un i un a gweithdai i gynorthwyo 179 o bobl yn Rhondda i gael mynediad at dechnoleg ddigidol.

At ei gilydd, mae prosiect Rhondda Digidol wedi cynorthwyo 1977 o unigolion dros ei dair blynedd o gyllid gan Sefydliad Moondance. O'r rhain cafodd 306 gymorth un i un wedi'i deilwra ac mae'r grŵp hwn yn gytbwys iawn ar draws grwpiau oedran. Mae anghenion pobl o ran cynhwysiant digidol yn amrywio ond dangosodd y gwerthusiad mai ymdrin â gweithgareddau allweddol fel trefnu apwyntiad meddyg, cael mynediad at gyfrif banc neu archebu tocynnau oedd fwyaf cyffredin, ac yna cyflogadwyedd, sy'n cwmpasu sgiliau digidol yn ogystal â chwilio am swyddi a gwneud cais amdanynt.

**Canlyniad a gyflawnwyd fesul cyfranogwr Rhondda Digidol**

| | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Gweithgareddau allweddol bywyd | Dd/B | 55 | 53 | 108 |
| Dysgu/Addysg | 27 | 8 | 5 | 40 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cysylltiad Cymdeithasol | 10 | 15 | 5 | 30 |
| Cyflogadwyedd | 28 | 49 | 27 | 104 |
| Cyngor | 7 | 3 | 1 | 11 |
| Arall | 2 | 4 | 8 | 14 |

Mae mynediad at dechnoleg ddigidol wedi'i helpu drwy roi neu fenthyg dyfeisiau. Drwy aelodaeth o Sefydliad Good Things, mae Rhondda Digidol wedi gallu rhoi 172 o gardiau sim â data wedi'u llwytho ymlaen llaw i bobl leol sy'n cael trafferth fforddio cael mynediad i'r rhyngrwyd. Mae'r prosiect hefyd yn derbyn ac yn ailbwrpasu dyfeisiau digidol ac mae wedi darparu 52 o nodiaduron a gliniaduron i bobl leol:

*Mae'r cyfrifiadur llechen a fenthycwyd wedi newid fy sefyllfa'n fawr. Nid oes rhaid i mi gerdded awr a hanner i fynd i'r llyfrgell er mwyn chwilio am swydd bob dydd.* (Cyfranogwr Rhondda Digidol)

Bydd Rhondda Digidol yn parhau i gynnig cymorth digidol i unigolion a sefydliadau a chlybiau cymunedol gan gynnwys grwpiau gemau a chodio.

**Heini ac Iach**

Gyda chyllid gan raglen Make Some Noise a gynhelir gan Global Charities a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, a gweithio ochr yn ochr  â PIAS Lles (gweler isod) sy'n cael ei ariannu gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, mae darpariaeth Heini ac Iach wedi gweithio gydag ysgolion, clybiau chwaraeon cymunedol, gwasanaethau ieuenctid a phartneriaid i ddarparu'r cyfle i bobl Rhondda gael budd o fanteision cymdeithasol ac iechyd gweithgarwch corfforol. Mae hefyd, eleni, wedi cynorthwyo dau berson lleol i ddatblygu eu sgiliau a sefydlu eu mentrau ffitrwydd eu hunain – Active Education CIC a Curl Fitness.

Mae sesiynau mewn ysgolion wedi cynnwys gweithio gydag ysgol anghenion arbennig ac ysgolion cynradd ac uwchradd ar draws Rhondda. Mae rhaglenni'r haf wedi dod â thîm cyfan Cenhedlaeth Rhondda at ei gilydd i gynnig sesiynau chwaraeon, gemau a chrefftau gan ddenu hyd at 40 o bobl ifanc.

Cynhelir sesiynau rygbi a phêl-droed cerdded yn wythnosol ac mae twrnameintiau wedi'u trefnu ar gyfer y ddwy gamp. Ceir grwpiau cerdded a grŵp rhedeg sy'n cwrdd

yn wythnosol. Ar gyfartaledd, mae'r gweithgareddau'n cynnwys dros 90 o bobl bob mis.

**PIAS**

Wedi'i sefydlu bron saith mlynedd yn ôl, mae PIAS (Play it Again Sport) yn derbyn dillad, esgidiau ac offer chwaraeon a roddwyd ac mae naill ai'n eu rhoi i ffwrdd neu'n eu gwerthu'n rhad iawn i ehangu mynediad at weithgareddau corfforol a llesiant. Defnyddir unrhyw warged a gynhyrchir i gyllido gweithgareddau yn Rhondda. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae 2200 o eitemau wedi'u rhoi i PIAS ac mae 1500 o eitemau naill ai wedi'u rhoi neu eu gwerthu am gost isel. Mae rhoddion o hanner marathon Caerdydd ac o finiau rhoddion ar draws Rhondda Cynon Taf wedi'u hychwanegu gyda bin rhoddion newydd ym Mhentref Chwaraeon Prifysgol Abertawe.

Mae siopau 'dros dro' wedi'u nodi fel ffordd dda o sicrhau gwerthiannau, gan gysylltu â gweithgareddau y mae partneriaid yn eu cynllunio a defnyddio model 'talu fel y teimlwch'. Mae PIAS yn gweithio gyda Rheoli Arian Cymru i roi iddynt unrhyw eitemau a roddir nad ydynt yn ddillad chwaraeon, ond y gellir eu defnyddio o hyd – gan lenwi eu hangen ac ailbwrpasu stoc dros ben.

Ar hyn o bryd mae PIAS yn cael ei reoli gan arweinydd PIAS Lles, Natasha Burnell, ac yn 2025 y bwriad yw trosglwyddo'r fenter i elusen newydd Cenhedlaeth Rhondda.

## PIAS Lles

PIAS Lles yw datblygiad y gwaith a hyrwyddwyd gan PIAS ac mae'n cael ei gyllido gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol o fis Chwefror 2023-Ionawr 2028. Dyma brif dargedau'r prosiect hwn:

- Hybiau cynaliadwyedd – cynorthwyo grwpiau/sefydliadau lleol i hyrwyddo ymwybyddiaeth o newid hinsawdd a'r hyn y gall pobl ei wneud i wneud gwahaniaeth (cynorthwyo gweithgareddau dan arweiniad y gymuned)
- 50.000 tunnell o ddillad chwaraeon sy'n cael ei ddargyfeirio o safleoedd tirlenwi

- 500 o bobl yn ymwneud â lles cymunedol (chwaraeon, symud corfforol a llesiant)
- 30 o arweinwyr lleol wedi'u hyfforddi ac yn cyflwyno gweithgareddau lleol
- Cylchlythyr/adolygiadau lleol bob 6 mis – darparu adroddiad cynnydd
- gwaith amgylcheddol i gynorthwyo gweithgarwch cymunedol mewn grwpiau sy'n cael eu harwain gan yr amgylchedd a difyr a'u cynorthwyo yn y gwaith y maent yn ei wneud, ac i ddod yn hunangynhaliol (cymorth gyda chyfrifon banc/cael eu cyfansoddi ac ati).

Dyma'r uchafbwyntiau allweddol eleni:

- mae ymgysylltu ag oedolion wedi cynyddu gan dros 100 o bobl
- mae ymgysylltu â phlant wedi cynyddu 200
- mae cyrraedd plant mewn ysgolion wedi cynyddu dros 1000
- lansio Zero @ The Shack Mai 2024
- lansio Siop Y Llyn Chwefror 2024
- Gŵyl Llesiant ym mis Ionawr 2025
- Mae dros £300,000 wedi'i godi gyda sefydliadau lleol eraill i ddatblygu eu darpariaeth iechyd a llesiant ac amgylcheddol.

Y bwriad, lle y bo'n bosibl, yw cynorthwyo grwpiau eraill i ddatblygu gweithgareddau sy'n cynorthwyo'r amgylchedd ac eleni mae PIAS Lles wedi cynorthwyo'r gwaith o ddatblygu hybiau cynaliadwyedd a ddatblygwyd gan Glwb Comrades Pentre (Zero@the Shack) ac Ymddiriedolaeth Pentref Cambrian (Siop y Llyn).

Ym mis Ionawr, i gyd-fynd â phobl yn gwneud eu haddunedau blwyddyn newydd, cynhaliwyd Gŵyl Llesiant yn Rhondda. Roedd tri rheswm y tu ôl i hyn:

1. Hyrwyddo busnesau a sefydliadau lleol – eu cynorthwyo yn ystod mis 'tawel' nodweddiadol drwy sicrhau busnes iddynt a'r cyfle i gyrraedd grwpiau newydd nad ydynt o bosibl yn gwybod amdanynt neu nad ydynt fel arfer yn ymgysylltu â nhw.
2. Cynorthwyo iechyd a llesiant pobl leol yn ystod mis eithriadol o heriol yn ariannol ac yn feddyliol.

3. Creu digwyddiad effaith fawr i hyrwyddo PIAS Lles a chynyddu cyrhaeddiad ac ymgysylltiad i bawb dan sylw.





Cymerodd dros 150 o bobl ran yn yr Ŵyl mewn gweithgareddau gan gynnwys:

- Bywluniadu
- Crochenwaith
- Canŵio
- Therapi Cyferbyniad (sawna a baddonau iâ)
- Myfyrdod
- Beicio Mynydd
- Rheoli Arian
- Ioga

Mae PIAS Lles wedi gweithio gyda Cenhedlaeth Rhondda i gynnal rhai gweithgareddau ar y cyd gan gynnwys gweithgareddau awyr agored gyda theuluoedd. Mae hefyd wedi cynnal gweithdai costau byw/cynaliadwyedd mewn partneriaeth â Phrifysgol Abertawe a Chlwb Pentre Comrades.

## Gwerthuso ac Ymchwil

Mae Pobl a Gwaith yn gweithio gyda'r sectorau cyhoeddus a gwirfoddol i ddarparu gwerthuso ac ymchwil a all helpu i wella bywydau. Rydym yn canolbwyntio ar waith ansoddol sy'n cyflawni amcanion cyffredinol yr elusen ac rydym wedi ymrwymo i waith sy'n galluogi cleientiaid i ddatblygu eu gwaith i gynorthwyo pobl mor effeithiol â phosibl.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gweithio ar amrywiaeth o feysydd pwysig gan gynnwys:

- gwerthuso'r rhaglen Buddsoddi'n Lleol a gynhelir gan yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau - Dathlu a Gwerthuso
- Gwerthusiad o'r Cod Ymarfer Awtistiaeth - Gwerthusiad o'r Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth: | LLYW.CYMRU
- Asesiad gwerthusadwyedd o'r Warant i Bobl Ifanc ar gyfer Llywodraeth Cymru (disgwylir cyhoeddiad).
- Meddwl Ymlaen – rhaglen pum mlynedd i ddatblygu gwell cymorth iechyd meddwl gyda phobl ifanc yng Ngwynedd ac Ynys Môn a gynhelir gan Barnardo's
- TAPI – rhaglen a gynhelir gan GISDA yng Ngwynedd i gynorthwyo pobl ifanc
- Cymorth dementia - dull cydlynol ar draws pum sefydliad sector gwirfoddol i gynorthwyo pobl â dementia a'u gofalwyr o dan arweiniad Age Cymru Gorllewin Morgannwg;
- Hawlio Heddwch - gwerthusiad o raglen i ddathlu canmlwyddiant deiseb heddwch menywod Cymru ar gyfer Academi Heddwch Cymru.
- Cymorth i CAMHS Gogledd Cymru i werthuso eu gwaith Mewngymorth gydag ysgolion.

## Strwythur, llywodraethu a rheoli

Mae'r elusen yn gwmni cyfyngedig drwy warant ac nid oes ganddo gyfalaf cyfrannau.

Yr ymddiriedolwyr yw'r cyfarwyddwyr hefyd at ddiben cyfraith cwmni, sef:

Christala Sophocleous

Phillip Watkins (Trysorydd)

Jan Huyton (Is-gadeirydd)

Gerard McHugh (Cadeirydd)

David Rees

Claire Vallance

## Staff

Ymddeolodd James Hall yn 2024. Roedd James wedi gweithio i Pobl a Gwaith am 16 mlynedd, gan ymuno yn 2008. Datblygodd a rheolodd rywfaint o'r gwaith cymunedol pwysicaf y mae Pobl a Gwaith wedi'i wneud, gan gynnwys rhaglen ynghylch dysgu cymunedol yng Nglyn-coch a'r gwaith yn Rhondda sydd bellach yn dod yn annibynnol. Mae James wedi gadael etifeddiaeth sylweddol yn y cymunedau y bu'n gweithio gyda nhw ac mae'n cael ei golli'n fawr yn Pobl a Gwaith. Dymunwn ymddeoliad hapus iawn iddo.

Duncan Holtom yw pennaeth y tîm ymchwil ac mae'n gweithio gyda Rhodri Bowen, uwch-ymchwilydd, ac Emma Preece. Mae'r tîm hwn yn cael ei gynorthwyo ymhellach gan grŵp bach o weithwyr llawrydd yr ydym wedi gweithio gyda nhw dros nifer o flynyddoedd. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys Alain Thomas, Leon Quinn, Val Williams ac Amanda Williams. Er bod y tîm ymchwil yn fach, mae'n gwneud gwaith pwysig sydd, yn ôl tystiolaeth, yn cael effaith ar bolisi ac ymarfer yng Nghymru.

Natasha Burnell sy'n arwain ar waith PIAS a PIAS Lles.

Yn ystod 2025, gwnaeth tîm Cenhedlaeth Rhondda drosglwyddo'n raddol i'w sefydliad eu hunain ac mae Pobl a Gwaith yn parhau i gynnal cysylltiadau cryf â nhw. Arweiniodd James Watts-Rees waith ysgolion a chwaraeon Heini ac Iach ar gyfer Pobl a Gwaith ac mae'n arwain ar ddatblygu Cenhedlaeth Rhondda.

Arweiniodd Tomas Jenkins y rhaglen gyflogaeth ar gyfer Pobl a Gwaith ac mae'n parhau i wneud hynny ar gyfer Cenhedlaeth Rhondda.
Mae Ethan Jones wedi parhau i arwain rhaglen Rhondda Digidol ar gyfer Cenhedlaeth Rhondda ac mae'n darparu cymorth digidol i Pobl a Gwaith.
Arweiniodd Natasha Owens Darllen Rhondda ar gyfer Pobl a Gwaith ac mae bellach wedi symud i weithio gydag un o bartneriaid Cenhedlaeth Rhondda.
Roedd hyfforddeiaethau blwyddyn yn cynnwys Lucas Evans, Heather Gavin Jenkins, Claire Davies, Raylee Caviell, Scott Jones a Carmen Todd-Jones.

Sarah Lloyd-Jones yw cyfarwyddwr ac Ysgrifennydd y Cwmni

Ann Churcher yw'r gweinyddwr.